**Shan Morgan**
Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon
Cyhoeddus a Gweinyddiaeth
Gyhoeddus

27 Hydref 2021

Annwyl Mark,

**Dull Llywodraeth Cymru o ymateb i argymhellion a wneir gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus yn ei adroddiadau**

Diolch ichi am eich llythyr yn ceisio sicrwydd y bydd yr arfer a fabwysiadir o dderbyn neu wrthod yn cael ei defnyddio wrth ymateb i adroddiadau gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus.

Yn gyntaf, hoffwn gydnabod y rôl yr ymgymerodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (Y Bumed Senedd) â hi wrth arwain yr ymchwiliad a chraffu ar weithrediad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 ('y Ddeddf'). Mae'r Adroddiad, *Cyflawni ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol: y stori hyd yn hyn*, yn dangos bod y Ddeddf yn parhau i fod yn bwynt cyfeirio ar gyfer gwella sut mae'r llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio mewn ffordd fwy cynaliadwy.

Fel y cydnabuwyd yn yr Adroddiad, dyma'r tro cyntaf i'r Senedd edrych yn fanwl ar y gwaith sydd wedi'i wneud o dan y Ddeddf gan y cyrff amrywiol sy'n gyfrifol am ei gweithredu, ac felly cytunodd cadeiryddion Pwyllgorau'r Senedd y byddai'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn arwain yr ymchwiliad. Nodaf yr ymateb gan y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes i'r Adroddiad sy'n cadarnhau bod cylch gorchwyl y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol yn cynnwys goruchwylio gweithrediad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Rwy'n cefnogi'n llwyr yr angen am eglurder o ran ymateb i adroddiadau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus. Gallaf eich sicrhau bod y penderfyniad i 'dderbyn mewn egwyddor' rai o argymhellion yr adroddiad yn cynrychioli achos unigol ac yn adlewyrchu natur argymhellion yr adroddiad a oedd yn ymdrin ag agweddau ar bolisi llesiant cenedlaethau'r dyfodol a fyddai, fel rheol, yn cael eu neilltuo i bwyllgor pwnc.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

Fel yr amlinellir yn fy llythyr dyddiedig 26 Gorffennaf 2018 ar y mater hwn, yr anfonwyd copi ohono at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar y pryd, mae cynnal y defnydd o dri ymateb – derbyn, derbyn mewn egwyddor, a gwrthod – yn sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gallu ymateb, ar sail gychwynnol o leiaf, i'r hyn sydd yn aml yn gallu bod yn argymhellion cymhleth ac amlddimensiwn mewn meysydd polisi a all fod yn dal i gael eu datblygu.

Mae ymateb Llywodraeth Cymru i'r Adroddiad yn dangos yn glir ein bod yn cytuno bod angen cymryd camau i fynd i'r afael â'r rhwystrau y mae'r argymhellion unigol yn ceisio eu datrys, ond y gallai fod ffordd fwy effeithiol neu amserlen wahanol ar gyfer datrys y rhain. Byddwn yn gobeithio bod y Pwyllgor yn ystyried hyn yn achos o dderbyn yr argymhelliad, yn hytrach nag achos o wrthwynebu'n llwyr y mater a'r camau gweithredu a argymhellir i fynd i'r afael â'r broblem. Byddem yn disgwyl i'r Pwyllgor feirniadu ein hymateb i'r argymhellion ac ymrwymiad i fynd i'r afael â'r rhwystrau yn erbyn ein hymatebion manwl i'r argymhellion.

Rwy'n gobeithio bod hyn yn rhoi'r sicrwydd yr ydych yn ei geisio ichi.

Yours,

Shan Morgan

**Shan Morgan**
Ysgrifennydd Parhaol/ Permanent Secretary
Llywodraeth Cymru/ Welsh Government

Copi wedi'i anfon at Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en